

Cyngor Bro Morgannwg

Adroddiad Ymgynghorol

Cynnig i gynyddu nifer y lleoedd mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg ym Mro Morgannwg

1. Gwybodaeth Gefndir

1.1. Amlinelliad yr ymgynghoriad

Cynrychiola'r adroddiad hwn yr adborth a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori rhwng 20 Mehefin 2016 hyd 1 Awst 2016 mewn ymateb i gynnig y Cyngor i gynyddu lleoedd ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg yn y Fro drwy;

- Ehangu Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg ar ei safle presennol o 1361 o leoedd i 1660 o leoedd.

Dilynodd y broses ymgynghori ganllawiau Llywodraeth Cymru, mewn cydymffurfiaeth â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Rhoddodd y broses ymgynghori gyfle i bobl leol ddysgu am y cynnig ac i'r Cyngor glywed barn y rheiny â diddordeb fel y gellid eu dwyn dan ystyriaeth cyn gwneud unrhyw benderfyniadau.

Cafodd yr ymgynghori ffurfiol ei gwblhau trwy ddogfen ymgynghori ffurfiol, gwybodaeth ychwanegol ynghyd a ffurflen ymateb a ddosbarthwyd i ymgynghoreion a ragnodwyd a'i gyhoeddi ar wefan Bro Morgannwg ar 20 Mehefin 2016.

Mae cyhoeddi dogfen ymgynghori yn ganolog i broses ymgynghori ar gyfer ad-drefnu ysgolion ac wedi ei ragnodi gan Lywodraeth Cymru yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013. Roedd y ddogfen ymgynghori yn amlinellu'r newidiadau dan ystyriaeth, y rhesymu dros y rhain a manylion yr ymarferiad ymgynghori. Roedd y ddogfen ymgynghori hefyd yn cynnwys ffurflen ymateb unigol. Hysbyswyd ymgynghoreion o'r ffaith bod fersiwn ar-lein o'r ffurflen ar gael i'w llenwi.

2. Ymgynghoriad

2.1. Cyhoeddi'r ymgynghoriad

Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori ddwyieithog ar 20 Mehefin 2016 a'i ddosbarthu ar-lein, drwy'r cyfryngau cymdeithasol ac ar wefan Cyngor Bro Morgannwg. Darparwyd y ddogfennaeth ar gyfer holl ysgolion cyfrwng Cymraeg Bro Morgannwg, gan gynnwys Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg, i'w cyhoeddi ar eu gwefannau.

Dosbarthodd y Cyngor ychydig o dan 700 o gopiâu papur o'r adroddiad ymgynghori i rieni a gofalwyr ym mhob ysgol cyfrwng Cymraeg ym Mro Morgannwg na dderbyniodd yr ohebiaeth a yrrwyd iddyn nhw ar e-bost. Darparwyd fersiwn electronig o'r ddogfen i ymgynghoreion eraill a ragnodwyd ynghyd a doleri i wefan Bro Morgannwg.

2.2. Ymgysylltiad rhanddeiliaid

Ymgynghorwyd ar y cynnig gydag ymgynghoreion rhagnodedig yn unol â Chod Ad-drefnu ysgolion 2013.

Ymgynghorodd y Cyngor â'r grwpiau canlynol:

Staff (dysgu a rhai nad sy'n dysgu) yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg	Corff Llywodraethu a Rhieni / Gofalwyr plant yn mynychu Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg
Corff Llywodraethu a Rhieni / Gofalwyr plant yn mynychu'r ysgolion sy'n bwydo Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg	Plant yn mynychu ys ysgolion sy'n bwydo Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg
Disgyblion yn mynychu Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg	Partneriaeth Datblygu'r Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant Bro Morgannwg (PDBC GP)
Bwrdd Rhaglen Plant a Phobl Ifanc Bro Morgannwg	Cynghorau Cymuned/ Tref
Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf	Aelodau'r cynulliad (AC) / Aelodau Seneddol (AS) / Aelodau Cynulliad Rhanbarthol
Cynghorwyr Lleol	Rhieni dros Addysg Gymraeg (RHAG)
Comisiynydd y Gymraeg	Undebau Llafur
Ysgolion Cynradd ac Uwchradd gerllaw ym Mro Morgannwg	Cyfarwyddwyr Addysg - Awdurdodau Lleol cyfagos
Consortiwm Canolbarth y De, Gwasanaeth ar y Cyd	Sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch
Estyn	Gweinidogion Llywodraeth Cymru
Heddlu Lleol a'r Comisiynydd Heddlu	Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol
Adran Drafnidiaeth y Cyngor	Fforwm Ieuenctid a Chabinet yr Ifanc Bro Morgannwg

Gwahoddwyd ymgynghoreion i gwblhau ffurflen ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad y gellid ei gwblhau ar bapur neu ar-lein drwy gyfrwng gwefan y Cyngor http://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/consultation/consultation_in_the_vale/Welsh-Medium-Secondary-School-Places.aspx

2.3. Cyfarfodydd ymgynghori a sesiwn galw i mewn

Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda staff a llywodraethwyr Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg a fynychwyd gan swyddogion y Cyngor. Tanlinellwyd prif bwyntiau'r ddogfen ymgynghori ynghyd ag eglurhad o'r broses statudol.

Cynhaliwyd dwy sesiwn i'r holl randdeiliaid yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg.

2.4. Ymgynghori â phlant a phobl ifanc

Cynhaliwyd sesiwn ymgynghori gyda Chyngor Ysgol Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg yn yr ysgol i gynnwys y disgyblion yn y broses ymgynghori. Gellir canfod adroddiad ar y sesiwn yn Atodiad A. Cynhaliwyd dau weithdy arall gyda chynrychiolwyr ysgolion cynradd Cymraeg, gan gynnwys

Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg
Ysgol Dewi Sant
Ysgol Sant Baruc

Ysgol Pen Y Garth
Ysgol Iolo Morgannwg
Ysgol Sant Curig

Gwahoddwyd Ysgol Gwaun y Nant i fynychu gweithdy, ond doedden nhw ddim yn gallu gyrru plant i'w cynrychioli.

Crynodeb Ymgynghori

2.5. Cwestiynau Ymgynghori

Holwyd ymgynghoreion am eu barn ar gwestiwn allweddol:

1. Ydych chi'n cefnogi'r cynnig i gynyddu darpariaeth addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg ym Mro Morgannwg i ateb y galw uwch am leoedd?

Rhodddwyd cyfle i ymgynghoreion i roi sylwadau pellach:

2. Os carech gynnig unrhyw newidiadau neu gynigion amgen, nodwch hwy isod.
3. Unrhyw sylwadau eraill?

2.6. Canlyniad yr adborth gan y rhanddeiliaid i gyd

Derbyniodd yr awdurdod 232 o ymatebion unigol erbyn dyddiad cau'r ymgynghoriad. O'r 232 ymateb unigol roedd 213 o blaid, 12 yn erbyn a 7 heb gynnig barn y naill ffordd neu'r llall. Ymatebodd corff llywodraethu Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg yn ffurfiol i'r ymgynghoriad.


Cyfarfu'r Pwyllgor Craffu ar Ddysgu a Diwylliant ar 18 Gorffennaf 2016 (mae cofnod Craffu rhif 169 yn cyfeirio ato) i ystyried y cynnig. Argymhellwyd y dylid

hysbysu'r Cabinet fod y Pwyllgor yn cefnogi'r cynigion i gynyddu llefydd addysg uwchradd Cyfrwng Cymraeg drwy ehangu Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg ar ei safle presennol.

Nodwyd na wnaeth pob ymgynghorai ddarparu ymateb i bob un o'r cwestiynau ac na chafodd rhai ffurflenni eu llenwi yn llawn. Yn yr achosion hyn rydym wedi derbyn yr ymatebion i'r cwestiynau ddewison nhw ymateb iddyn nhw.

Ni chynhwysir adborth o'r cyfarfodydd ymgynghori a'r sesiynau galw i mewn yn yr adroddiad hwn am ei fod wedi ei nodi yn glir yn y ddogfen ymgynghori fod y Cyngor ond am dderbyn ymatebion gan ddefnyddio'r ffurflen ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad. Hysbyswyd rhieni o hyn yn y sesiynau galw i mewn.

3.3 Proffil ymatebwyr



Mae crynodeb o'r themâu allweddol a'r materion a godwyd gan yr ymgynghoreion statudol a'r ymateb i'r materion hynny gan Gyngor Bro Morgannwg i'w canfod yn Atodiad A. Gellir canfod crynodeb o ymatebion yn cefnogi'r cynnig yn Atodiad B ac ymatebion eraill i themâu cyffredinol yn Atodiad C.

Gellir canfod yr ymgynghoriad pobl ifanc yn Atodiad D.

Gellir canfod yr ymateb gan gorff llywodraethol Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg yn Atodiad E.

Mae ymateb Cyngor Tre'r Barri yn Atodiad F.

Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013, gyrrwyd copi o'r ddogfen ymgynghori at Estyn. Mae ymateb Estyn i'w gael yn Atodiad G.

Ymgynghori ag ymgynghoreion statudol

1. Themâu adborth

Mae'r canlynol yn crynhoi'r prif faterion/pryderon a godwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol. Mae'r materion yn cyflwyno trosolwg o ymatebion ac nid i'w cymryd fel ymatebion gair am air. Gwnaed pob ymateb ysgrifenedig ar gael i aelodau Cabinet.

Mater 1

Bydd dwy ysgol uwchradd gymysg eu rhyw cyfrwng Saesneg newydd yn gweld lleihad yn y galw dros gyfnod o amser.

Roedd dau ymatebydd o'r farn y bydd y galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn lleihau dros gyfnod o amser os gwireddir y cynnig arfaethedig i greu dwy ysgol uwchradd newydd gymysg eu rhyw yn y Barri. Roedd ymatebydd arall yn amau cymhelliant rhieni dros yrru eu plant i addysg Gymraeg. Mae rhieni yn gyrru eu plant i ysgolion Cymraeg oherwydd prinder ysgolion gymysg eu rhyw yn ardal y Barri.

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd

Mae'n bosib y gallasai'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg gael ei effeithio gan sefydlu'r ddwy ysgol newydd cyfrwng Saesneg rhyw gymysg. Fodd bynnag, mae'r cyngor yn hyderus y caiff y galw a ragwelir ar gyfer addysg Gymraeg ei gynnal yn seiliedig ar y tueddiadau presennol.

Rhagwelir y bydd y galw am lefydd uwchradd cyfrwng Cymraeg yn codi'n sylweddol o fis Medi 2018 wrth i ddisgyblion o ddwy ysgol Gymraeg newydd a sefydlwyd yn Llanilltud Fawr a'r Barri ym mis Medi 2011 ddechrau bwydo'r sector uwchradd. Fe gynyddodd ysgol gynradd arall, Ysgol Gwaun y Nant, ei faint o un ffrwd mynediad i ddwy ffrwd i ateb y galw o fis Medi 2015, a bydd hyn yn cael effaith ar y sector uwchradd o fis Medi 2022 ymlaen.

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod rhywfaint o ansicrwydd ynghylch darogan galw yn y dyfodol am lefydd ysgolion uwchradd sy'n ddibynnol i raddau helaeth ar alw am lefydd yn y sector cynradd. Mae ehangu'r ysgol yn seiliedig ar system gadarn o ddarogan niferoedd disgyblion sy'n rhoi ystyriaeth i dueddiadau hanesyddol a'r galw presennol am addysg cyfrwng Cymraeg gan yr ysgolion bwydo cynradd.

Yn ôl y rhagolygon fe fydd Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg wedi cyrraedd ei lawn dwf erbyn 2020. Bydd angen lleoedd ychwanegol i ganiatáu i'r plant ychwanegol gael parhau â'u haddysg Gymraeg. Mae dyletswydd statudol ar yr awdurdod i gwrdd â'r galw hwn.

Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg fel y mae'n ei wneud ar gyfer pob math ar ddarpariaeth ysgol. Yn seiliedig ar dueddiadau data presennol mae'r Cyngor yn hyderus bod ehangu'r ysgol o'r maintioli cywir i ddiwallu galw'r dyfodol am addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg.

Mater 2

Mae ysgolion cyfrwng Cymraeg wedi eu hariannu yn well ac â gwell cymarebau staff/myfyrwyr

Roedd dau ymatebwr o'r farn bod ysgolion cyfrwng Cymraeg yn derbyn ariannu gwell ac â chymarebau gwell o ran staff i fyfyrwyr. Dylai pob ysgol gael eu hariannu, eu datblygu, eu staffio a'u cynnal i'r un graddau. Mae ysgolion cyfrwng Cymraeg eisoes â'r meintiau dosbarth lleiaf gyda chyn lleied ag 8/9 disgybl y dosbarth ac mae hyn yn gyrru rhieni i gyrchu addysg cyfrwng Cymraeg.

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd.

Mae pob ysgol wedi ei hariannu yn yr un modd trwy'r fformiwla cyllido ysgolion sy'n ddibynnol ar niferoedd disgyblion gyda mwyafrif y cyllid yn cael ei bennu ar y sail yma. Bydd nifer y staff mae ysgol yn ei chyflogi yn cael ei bennu gan ddyraniad y gyllideb sy'n fater i gorff llywodraethol yr ysgol benderfynu yn ei gylch.

Does dim dosbarthiadau gyda chyn lleied â 8 neu 9 o ddisgyblion yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg ym Mro Morgannwg. Mae maint dosbarthiadau mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg, ac eithrio meithrin ac ysgolion arbennig, yn debyg iawn. Cyfartaledd maint dosbarth ysgolion cynradd Cymraeg a Saesneg yw 26 o ddisgyblion ac yn y sector uwchradd mae'n 20 a 21. Mae dyletswydd ar gynghorau i gynnal maint dosbarthiadau ar 30 neu lai o ddisgyblion sy'n cael ei reoli'n effeithiol ym Mro Morgannwg.

Mater 3

Dylid darparu ar gyfer y galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn rhywle arall

Roedd tri ymatebwr yn teimlo y dylid darparu ar gyfer y galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn rhywle arall yn y Fro. Byddai gan blant lai o ffordd i deithio a byddai'n lleihau costau cludiant ysgolion. I rai, mae'n cymryd awr i gyrraedd yr ysgol yn y bore ac awr i gyrraedd adref.

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd.

Mae'r Cyngor yn hyderus yn ei ragolygon ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol ac y bydd angen cynyddu nifer y lleoedd o fis Medi 2020 ymlaen i ateb y galw a ragwelir.

Mae niferoedd y disgyblion yn y sector uwchradd yn ddibynnol ar y galw i raddau helaeth am leoedd yn y sector cynradd. Mae ehangu a lleoliad yr ysgol wedi ei

seilio ar y galw presennol am addysg cyfrwng Cymraeg ddaw o'r ysgolion cynradd sy'n ei fwydo.

Nid yw'r cyngor yn credu ei bod yn ymarferol i sefydlu ysgol arall mewn lleoliad arall. Mae mwyafrif y disgyblion, (dros 79%) wedi eu lleoli yng nghyffiniau'r Barri ac ardal Penarth. Ar hyn o bryd does dim digon o alw i ystyried darparu ysgol cyfrwng Cymraeg arall ym Mro Morgannwg. Mae'r cyngor yn cydnabod y gall amseroedd teithio fod yn hir i rai disgyblion gan ddibynnu ar le maen nhw'n byw. Mae hyn yn cyfateb i lawer o gynghorau eraill yng Nghymru.

Mater 4

Gwaith Adeiladu

Roedd gan ymatebwyr bryderon ynghylch sut y byddai'r gwaith adeiladu yn amharu ar blant yn enwedig y rheiny yn astudio ar gyfer TGAU.

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd.

Bydd cynllunio gofalus yn digwydd mewn ymgynghoriad â'r ysgol i leihau unrhyw beryg o ymyrraeth neu darfu ar rediad arferol yr ysgol o ddydd i ddydd yn sgil gwaith adeiladu, yn enwedig ar adegau arholiad allweddol.

Mae record wych gan y Cyngor a phrofiad helaeth yn darparu prosiectau adeiladu ar raddfa fawr i ysgolion. Mae aildatblygu Ysgol Gyfun y Bont-faen, adeiladu'r Ganolfan ddysgu Gymunedol Penarth a'r adeiladu presennol ar Ganolfan Ddysgu Llanilltud Fawr wedi eu rheoli gyda'r tarfu lleiaf posib ar ddisgyblion. Mae cyrhaeddiad disgyblion yn mynychu ysgolion y Bont-faen ac Ysgol Gyfun St Cyres wedi codi'n sylweddol yn ystod ac wedi'r gwaith adeiladu. Bydd y Cyngor yn mabwysiadu'r un egwyddorion ar gyfer ymestyn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg fydd yn golygu tarfu cyn lleied â phosib ar y disgyblion.

Mae'r broses adeiladu yn darparu amgylchedd dysgu unigryw ac mae'r cyngor wedi cyflawni nifer o fentrau arobryn yn llwyddiannus, megis y llysgenhadon adeiladu. Mae hyn yn gymorth i sicrhau fod athrawon a disgyblion yn ymwybodol o'r cyfleoedd y mae gwaith adeiladu yn gallu eu rhoi a thrwy weithio gyda'r adeiladwyr bod modd cyflawni'r cyfleoedd hyn.

Mater 5

Parhau gyda'r cynnig cyntaf

Roedd un ymatebydd yn teimlo y dylai'r Cyngor barhau a'r cynnig cyntaf a wnaed yn 2015 i weddnewid addysg uwchradd yn y Barri a symud Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg i safle Ysgol Uwchradd Bryn Hafren.

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd.

Doedd mwyafrif yr ymatebion i'r cynnig gwreiddiol yn 2015 ddim yn gefnogol i symud Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg i safle Ysgol Gyfun Bryn Hafren.

Ystyriodd y Cabinet yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y pryd oll yn ofalus a phenderfynu peidio bwrw ymlaen gyda'r cynnig gwreiddiol ac i sefydlu bwrdd ymgynghorol i adolygu'r opsiynau.

Wedi ystyried adborth rhaglen ymgysylltu uwchradd a wnaed gyda'r cyhoedd, disgyblion, staff, undebau a llywodraethwyr Ysgol Gyfun y Barri, ysgol Gyfun Bryn Hafren ac Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg, ystyriodd y bwrdd ymgynghorol yr opsiynau ar gyfer dyfodol addysg uwchradd yn y Barri a chytuno taw'r opsiwn a ffafriwyd ar gyfer ehangu addysg cyfrwng Cymraeg oedd ehangu Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg ar ei safle presennol.

Bydd y cynnig presennol yn mynd i'r afael â'r angen i ehangu darpariaeth addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg ym mro Morgannwg i gwrdd â'r angen yn y dyfodol wrth wella amgylcheddau dysgu ac adnoddau cymunedol a rennir.

Mater 6

Cynnydd mewn lleoedd yn y dyfodol

Roedd ymatebydd a ffafriai'r cynnig yn credu ei bod yn well creu mwy o leoedd na'r galw yn y cynlluniau adeiladu i alluogi agwedd fwy hir dymor i gael ei mabwysiadu at gynyddu nifer llyfudd yn yr ysgol. Teimlid mai buan y byddai'r 299 lle ychwanegol yn cael eu defnyddio yn y dyfodol wrth i'r ysgol barhâi i dyfu. Dylai'r cynlluniau gwreiddiol roi ystyriaeth i fwy o alw yn y dyfodol am leoedd.

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd.

Fel y nodwyd yn ymateb y Cyngor i fater 1, mae rhywfaint o ansicrwydd ynghylch y galw yn y dyfodol sy'n ddibynnol i raddau helaeth ar y galw am leoedd yn y sector cynradd. Mae ehangu'r ysgol wedi ei seilio ar system gadarn o ddarogan niferoedd disgyblion a'r galw presennol am addysg cyfrwng Cymraeg ddaw o'r ysgolion cynradd sy'n ei fwydo.

Mae rhagolygon y Cyngor yn rhoi ystyriaeth i dueddiadau a niferoedd ar y gofrestr yn hanesyddol a data poblogaeth cyn ysgol i geisio nodi tueddiadau yn y dyfodol. Mae'r Cyngor hefyd yn gwneud asesiad/arolwg rheolaidd o rieni cyn-ysgol i geisio darogan y galw yn y dyfodol am addysg cyfrwng Cymraeg ym Mro Morgannwg.

Os oedd yr holl ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn llawn dop bob blwyddyn a phob disgybl yn trosglwyddo i Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg, byddai gofyn am 1,800 o leoedd. Fodd bynnag, nid dyma'r achos. Mae ehangiad yr ysgol yn seiliedig ar y rhagolygon presennol a'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg o'r ysgolion cynradd sy'n bwydo nad sy'n llawn ac y proffwydir iddyn nhw aros felly yn y dyfodol. Ar gyfartaledd dros y 5 mlynedd diwethaf, mae 96.2% o ddisgyblion blwyddyn 6 ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn trosglwyddo i addysg

uwchradd yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg. Byddai ehangu'r ysgol i oddeutu 1800 o leoedd yn arwain at ormod o leoedd gwag yn cael eu creu yn yr ysgol na fyddai'n ddefnydd effeithiol ar adnoddau. Mae amcanestyniadau disgyblion yn awgrymu y bydd angen am 1,366 o leoedd Addysg Uwchradd cyfrwng Cymraeg erbyn 2026.

Mae'r cyngor yn hyderus yn ei amcanestyniadau ar gyfer y cynnydd yn nifer y disgyblion a bo dyr ysgol yn cael ei hadeiladu i'r maint cywir ar gyfer y galw yn y dyfodol am addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg.

Mae'r adran hon yn darparu sylwadau a godwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol ar gyfer y rheiny o blaid y cynnig. Mae'r materion yn cyflwyno trosolwg o

Ymatebion ac nid ydynt wedi eu bwriadu i fod gair am air. Gwnaed pob ymateb ysgrifenedig ar gael i aelodau Cabinet.

Bydd yr ysgol estynedig yn ateb y galw cynyddol am addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg ym Mro Morgannwg.

- Mae'n bwysig i ateb y galw fel bod pob teulu sydd wedi dewis addysg cyfrwng Cymraeg yn gallu cael lle ysgol addas i'w plant.
- Mae o'r pwys mwyaf i gynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg er mwyn sicrhau fod pob disgybl sy'n dymuno derbyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael y cyfle hwnnw.
- Mae cynnydd sylweddol yn nifer y disgyblion sydd eisiau addysg cyfrwng Cymraeg.
- Mae'n hollol amlwg fod galw yn cynyddu ac felly mae angen cynyddu'r ddarpariaeth.

Dewis i ddisgyblion i gael eu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

- Rhaid i rieni gael dewis ym mha iaith y maen nhw yn dymuno i'w plant dderbyn eu haddysg. Felly, rhaid caniatáu'r dewisiadau hyn.
- Mae'n hanfodol i sicrhau dyfodol yr iaith Gymraeg yng Nghymru, yn enwedig yn y Fro. Y ffordd fwyaf synhwyrol o wneud hyn yw ehangu addysg cyfrwng Cymraeg i bobl ifanc.
- Gan fod angen sicrhau dyfodol yr iaith mae angen mwy o leoedd i ddisgyblion sydd eisiau siarad Cymraeg.
- Mae'n gyfle gwych i fwy o blant siarad Cymraeg ac i gadw'r iaith yn fyw. Dyw hi ddim yn deg cyfyngu pobl rhag hyn am nad oes yna ddigon o leoedd ysgol iddyn nhw.

Cyfleoedd ar gyfer cyfleusterau gwell.

- Bydd hyn yn rhoi cyfle i ymestyn yr ardal fwyta sydd yn rhy fach ar hyn o bryd.
- Mae angen ysgol sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain ac sy'n gallu cynnig y gorau i'w ddisgyblion o safbwynt TG, chwaraeon a dosbarthiadau arbenigol er mwyn parhau a llwyddiant y disgyblion yn

gadael yr ysgol...a bod yn barod i gyfrannu i'r gymdeithas a'r economi Gymreig.

- Mae angen gwell cefnogaeth ar blant ag Anghenion Dysgu Arbennig mewn Addysg Gymraeg ym Mro Morgannwg.
- Angen mwy o ehangu a mwy o adnoddau i blant. Mae angen ehangu'r ysgol a darparu mwy o adnoddau fel rhan o'r gwaith hwn.

Mae'r adran hon yn darparu sylwadau i faterion cyffredin a gododd yn sgil yr ymgynghoriad ar y cynnig.

A fydd unrhyw newid i drefniadau derbyn ar gyfer yr ysgol?

Cyngor Bro Morgannwg yw'r awdurdod derbyn ar gyfer yr ysgol. Byddai trefniadau derbyn yr ysgol yn parhau heb eu newid yn sgil y cynnig.

A fydd unrhyw newid yn nalgylchoedd yr ysgol?

Ni fydd y dalgylchoedd ar gyfer oedrannau cynradd nac uwchradd yn newid.

A fydd yr ysgol yn parhau ar agor ar y safle presennol?

Bydd yr ysgol yn parhau i weithredu ar y safle presennol. Yn 2018, bydd y nifer derbyn ar gyfer lleoedd uwchradd yn cynyddu o 169 i 240. Mae lle yn yr ysgol ar hyn o bryd i dderbyn y cynnydd yn niferoedd y disgyblion tan 2020, ar yr adeg honno bydd angen darparu gofod ychwanegol ar gyfer y cynnydd mewn niferoedd.

Pa bryd fydd y gwaith yn digwydd?

Os caiff y cynnig ei dderbyn gan y Cabinet, rhagwelir y bydd y gwaith yn dechrau ar ddechrau 2019. Ar hyn o bryd nid ydym wedi derbyn cefnogaeth Llywodraeth Cymru am na fydd y trefniadau cyllido yn digwydd tan 2019. Rydym fodd bynnag, yn ymrwymedig i ehangu darpariaeth uwchradd ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg. Mae record wych gan y Cyngor yn ennill cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer achosion busnes arian cyllido Ysgolion Yr Unfed Ganrif ar Hugain. Mae'r llwyddiant hwn ynghyd â llwyddiant ein cynlluniau buddsoddi mewn ysgolion o dan Fand A rhaglen Ysgolion Yr Unfed Ganrif ar Hugain, yn ein gosod mewn safle cryf i sicrhau ariannu grant o dan Fand B. Os na chaiff ariannu grant ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, bydd y Cyngor yn adolygu ei raglen, gan roi blaenoriaeth i ehangu'r ysgol er mwyn ateb y galw disgwylidig.

A fydd gwaith adeiladu yn ystod tymor yr ysgol?

Mae'r broses adeiladu yn darparu amgylchedd dysgu unigryw ac mae'r cyngor wedi cyflawni nifer o fentrau arobryn yn llwyddiannus, megis y llysgenhadon adeiladu. Mae hyn yn gymorth i sicrhau fod athrawon a disgyblion yn ymwybodol o'r cyfleoedd y mae gwaith adeiladu yn gallu eu rhoi a thrwy weithio gyda'r adeiladwyr bod modd cyflawni'r cyfleoedd hyn.

A fydd trafndiaeth ysgol yn parhau i gael ei ddarparu ar gyfer disgyblion cymwys?

Bydd y disgyblion sy'n derbyn trafndiaeth ysgol am ddim yn parhau i'w dderbyn. Gellir gweld y meini prawf cymhwysedd yn yr amlinelliad ar Bolisi Trafndiaeth Ysgolion drwy ddilyn y ddolen yma:

http://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/working/education_and_skills/schools/school_transport/school_transport.aspx

Ymgynghori â phobl ifanc

YMGYNGHORI GYDA CHYNRYCHIOLWYR DISGYBLION O YSGOLION SY’N BWYDO YSGOL BRO MORGANNWG AR RAN CYNGOR BRO MORGANNWG

YMGYNGHORIAD

Cwblhawyd sesiynau ymgynghori gyda phlant o;

- Ysgol Iolo Morgannwg ac Ysgol Dewi Sant (13 Gorffennaf 2016), traws-doriad o ddisgyblion o flynyddoedd 4 a 6;
- Ysgol Sant Curig, Ysgol Sant Baruc, Ysgol Pen y Garth, Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg (15 Gorffennaf 2016), traws-doriad o ddisgyblion o flynyddoedd 3,4,5 a 6.

CEFNDIR AC AMCAN

- Roedd Cyngor Bro Morgannwg yn awyddus i roi llais yn yr ymgynghoriad ar ehangu Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg i ddisgyblion cynradd yn yr ysgolion fydd yn ei bwydo.
- Rhoddwyd cyfle i grŵp o ddisgyblion ym mhob ysgol i gymryd rhan yn y gweithdy ymgynghori.

METHODOLEG

- Gweithdy rhyngweithiol i roi'r cyfle i ddisgyblion rannu a thrafod syniadau ymhlith ei gilydd.
- Trafodwyd ystyr 'ymgynghoriad' ynghyd â phaham bod trafodaeth gyda'r disgyblion yn bwysig.
- Rhannwyd a chytunwyd ar hanfodion trafodaeth/ymgynghoriad da.
- Eglurwyd y ddogfen ymgynghori iddyn nhw. Roedd cyfeiriad at y prif elfennau yn y ddogfen gan gynnwys cefndir, argymhellion ac amserlen.
- Rhannwyd y disgyblion yn is-grwpiau i greu mapiau meddwl/rhestrau o'u syniadau hwy eu hunain ar gyfer ac yn erbyn y cynlluniau arfaethedig.
- Unwyd yr is-grwpiau wedyn i adrodd yn ôl a chael trafodaeth bellach gan ddilyn y canllawiau a osodwyd ar ddechrau'r sesiwn.

YMATEBION Y DISGYBLION

Beth sy'n gwneud trafodaeth dda?

- Bod pwnc trafod da ar gael
- Parodrwydd i wrando ar syniadau pobl eraill
- Pawb i gyfrannu
- Hyder i rannu syniadau
- Cyflwyno eich syniadau mewn modd clir
- Dim torri ar draws eraill wrth drafod
- Parodrwydd i roi eich syniadau chi eich hun nid dim ond cadw at syniadau gweddill y grŵp.

MANTEISION Y CYNLLUN ARFAETHEDIG

Gweithdy 1

- Mwy o le – tu fewn a thu allan
- Bydd yr ysgol yn fwy poblogaidd – bydd mwy o ddisgyblion am ddod i'r ysgol
- Bydd mwy o bobl eisiau dysgu Cymraeg am y bydd hi'n ysgol well
- Cadw'r iaith yn fyw
- Gwell cyfleoedd i bobl ifanc yn eu bywydau, gwell addysg, gwell swyddi
- Agor drysau i bobl sydd eisiau addysg cyfrwng Cymraeg
- Mwy o waith i athrawon newydd
- Gwell Addysg Gorfforol
- Maes parcio mwy a chaeau chwarae
- Bydd yn edrych yn fwy modern
- Efallai y bydd y 'gweddnewidiad' yn denu mwy o blant i'r ysgol (fel sydd wedi digwydd yn Ysgol Uwchradd y Bont-faen).
- Mwy o help i blant sydd angen cymorth arbennig

Gweithdy 2

- Bydd mwy o hwyl am y bydd mwy o bethau i'w gwneud y tu allan
- Bydd mwy o adnoddau oherwydd y bydd yna fwy o bobl
- Mwy o ofod a fydd pawb ddim ar ben ei gilydd
- Mwy o ofod i gymnasteg a gwyddoniaeth
- Mwy o lei i barcio, storio offer, bwyta chwarae pêl-droed
- Mwy o ddsbarthiadau
- Gwell i rieni am y bydd yna fwy o lefydd i barcio
- Bydd yn help i ddatblygu chwaraeon yn sgil y cae 3G a'r neuadd chwaraeon
- Efallai y bydd y dosbarthiadau'r un maint ac felly yn decach i bawb
- Bydd hi'n haws dod o hyd i ddsbarth am y bydd yn fwy trefnus
- Bydd mwy o ddisgyblion yn gallu cael addysg cyfrwng Cymraeg a bydd mwy eisiau derbyn addysg cyfrwng Cymraeg a dod i Ysgol Bro Morgannwg
- Bydd mwy o gyfleoedd i blant
- Bydd mwy o bobl am ddod i'r ysgol am y bydd yn newydd

- Bydd hi'n haws dod o hyd i'r fynedfa
- Efallai y bydd pobl o ysgolion cyfrwng Saesneg eisiau dod yno
- Bydd mwy o waith i athrawon
- Bydd gwell addysg i bobl am y bydd yna fwy o athrawon

CAMAU GWAG POSIB I'W HYSTYRIED

Gweithdy 1

- A fydd yn cymryd llawer o amser i'w adeiladu?
- A fydd y neuadd yn fwy?
- Efallai y bydd yn rhy gostus
- Efallai y caiff plant eu hanafu yn ystod yr adeiladu
- Bydd angen bod yn ofalus nad yw'r safle yn beryglus yn ystod yr adeiladu

Gweithdy 2

- Efallai y bydd mwy o geir o gwmpas ac felly mwy o lygredd?
- Gofid os bydd yn effeithio ar y tai cyfagos ai peidio, a'r amgylchedd naturiol?
- Efallai y bydd llai o le y tu allan gyda'r adeiladau newydd yn cymryd gormod o le?
- Gallai mwy o draffig greu mwy o broblemau
- A fydd digon o arian ac os na, a fydd digon o adnoddau?
- A fydd digon o ofod?
- A fydd yn rhy llawn maes o law o ganlyniad i'r ffaith y bydd mwy o bobl eisiau dod yno?
- Efallai y bydd yn anodd dysgu gyda sŵn y gwaith adeiladu

PLEIDLAIS

Yn dilyn y drafodaeth uchod gofynnwyd i'r disgyblion bleidleisio dros neu yn erbyn neu i nodi os oeddent yn ansicr ynghylch y project arfaethedig a chefnogwyd y cynllun gan 100%

Gweithdy Ymgynghorol – Cyngor Ysgol Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg

Dydd Mawrth 05 Gorffennaf 2016

Cynhaliwyd gweithdy yn yr ysgol trwy gyfrwng y Gymraeg gan dîm Ymgysylltu Cymunedol y Cyngor.

Mynychwyd y gweithdy gan gyfanswm o 11 o bobl ifanc


Blwyddyn 7:1; Blwyddyn 8: 2; Blwyddyn 9: 2; Blwyddyn 10:1 Blwyddyn 12: 5

Merched 4; Bechgyn: 7

Rhestru Diamwnt

Pa welliannau sydd fwyaf pwysig i chi?


Grŵp Blwyddyn 7-11



Rhestru Diamwnt

Pa welliannau sydd fwyaf pwysig i chi?

Grŵp chweched dosbarth



Cytuno	Anghytuno
Gydag ehangiad arfaethedig yr ysgol: 11	Gydag ehangiad arfaethedig yr ysgol: 0
Gyda'r adnewyddu 11	Gyda'r adnewyddu 0

Sylwadau

Bloc dysgu newydd

- Mae angen mwy o ystafelloedd dosbarth a llefydd i astudio ar yr ysgol
- Mae plant yn dod yma i ddysgu felly mae'n bwysig cael digon o ofod i hyn

Neuadd ychwanegol/darpariaeth chwaraeon

- Gallai hwn fod yn ofod amlbwrpas ar gyfer cynullïadau'r ysgol, chwaraeon, ystafell fwyta a lloches pan yw'n bwrw glaw

Gwella mynediad i anabledd ac uwchraddio cynnal a chadw

- Mae hyn yn bwysig i'r rheiny ag anabledd ond nid yn ddefnyddiol i bawb
- Dylai bod mynediad anabledd yn ei le ond does dim angen gwario llawer o arian arno

Mynedfa newydd o Port Rd

- Awgrym i gael un fynedfa i geir ac un i fysiau
- Bydd yn caniatáu i'r rheiny sy'n byw'r ochr honno i'r Barri gael mynediad rhwydd i safle'r ysgol.

Darpariaeth anghenion Dysgu Ychwanegol

- Does dim angen hyn ar lawer o ddisgyblion

Parcio newydd ac estynedig

- Defnyddiol i rieni, yn enwedig os yw'r ysgol i'w ehangu

Cae chwarae 3G

- Braf ond nid yn hanfodol

Awgrymiadau pellach:

Cantîn

- Does dim digon o le yn y cantîn
- Mae ciwiau hir bob tro amser cinio
- Does dim digon o le i eistedd a bwyta
- Un syniad a gynigiwyd ac a drafodwyd eisoes oed y posibilrwydd o hollti amserau cinio fel bod llai o ddisgyblion ar eu hegwl ac yn y cantîn ar yr un pryd.

Lloches ar gyfer pan fo hi'n bwrw glaw

- Ar hyn o bryd does dim lle gan y disgyblion i ochel rhag y glaw yn y boreau cyn cofrestru

Casgliad

1. Bloc dysgu newydd
2. Neuadd/darpariaeth chwaraeon newydd, Cantîn newydd/estynedig
3. Gwella mynediad i anabledd ac uwchraddio cynnal a chadw
4. Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol; mynedfa flaen newydd/plaza; parcio newydd ac estynedig; ffordd fynediad newydd o Port Rd.
5. Lloches ar gyfer pan fo hi'n bwrw glaw
6. Cae chwarae 3G

**Barry Youth Action – Gweithdy Disgyblion
19 Gorffennaf 2016**

Mynychodd 2 berson ifanc y gweithdy, ill dau wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad blaenorol ym mis Mai 2015.

Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg?

Roedd un person ifanc yn cytuno ond ddim yn credu fod digon o leoedd newydd yn cael eu creu am £19 miliwn.

Roedd 1 person ifanc yn anghytuno oherwydd ei fod yn credu na fyddai yna ddigon o le o hyd yn y cantîn/caffi.

Mae cynyddu lleoedd yn gam cadarnhaol am ei fod yn arwain at fwy o siaradwyr Cymraeg.

Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i wella adnoddau yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg?

Roedd y ddau berson ifanc yn cytuno ei bod yn syniad da. Nododd y ddau eu bod yn credu y dylid ymgynghori â disgyblion ynghylch y cynlluniau ehangu a datblygu penodol am y bydd ganddyn nhw olwg ymarferol ar os byddant yn gweithio ai peidio.


Nododd y ddau berson ifanc nad oedd angen am gae chwarae 3G am fod yna gae chwarae dan do eisoes. Nododd un person yn hytrach na chae chwarae 3G y gellid datblygu trac athletau.

Pa welliannau sydd yn bwysig i chi?

Adnodd	Nodiadau trafod
Bloc dysgu newydd	Credai GC y byddai hyn yn lleihau tagfeydd
Mynedfa newydd	Byddai mynedfa newydd ar Port Road a Colcot Road yn galluogi disgyblion i gofrestru yn gynt
Cae chwarae 3G	Dim ei angen. Cae athletau yn lle hynny.
Parcio newydd i fysiau	Llai angenrheidiol na parcio arferol gan eu bod yno ond am chwarter awr.
Mynediad o Port Road	Syniad da.
Derbynfa newydd	Syniad da os yw'n lleihau'r amser gymer i gwblhau gwaith papur.
Gwell mynediad anabl	Mae hyn yn bwysig ond ddim yn flaenoriaeth.
Neuadd newydd	Credai RP fod neuadd newydd yn brif flaenoriaeth.
Mwy o barcio	Blaenoriaeth isel (ond uwch na parcio i fysiau) ond byddai o gymorth. Caiff y parcio presennol ei ddefnyddio gan rieni ysgol gynradd hefyd.
Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol	Credai'r ddau fod darpariaeth ADY yn flaenoriaeth uchel.

Rhestru Diamwnt

Pa welliannau sydd fwyaf pwysig i chi?



Ymateb Corff Llywodraethu – Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg

Cred y Corff Llywodraethu y bydd y cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad Addysg Cyfrwng Cymraeg yn y Fro am genedlaethau i ddod. Bydd y cynigion hyn yn ateb y galw arfaethedig am leoedd ychwanegol.

Mae'r Corff Llywodraethu yn ddiolchgar i Gyngor Bro Morgannwg am gydnabod yr angen i fuddsoddi yn Ysgolion Uwchradd y Barri yn gyffredinol. Ni all seilwaith presennol Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg gynnal twf sylweddol uwch heb fuddsoddiad o'r fath.

Bydd y cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad Addysg Cyfrwng Cymraeg yn y Fro am genedlaethau i ddod. Bydd y cynigion hyn yn ateb y galw arfaethedig.

Bob Evans

Cadeirydd y Llywodraethwyr

Ymateb Cyngor Tre'r Barri

Mae Cyngor Tre'r Barri yn ystyried ei bod yn rhaid iddi gefnogi'r cynigion i gynyddu nifer y lleoedd uwchradd yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg i gwrdd â'r galw am fod hyn yn ddisgwyliad gorfodol ar Awdurdodau Unedig.

Angie Norman – Clerc y Dre Dros Dro

Ymateb Estyn i'r ymgynghoriad

Ymateb Estyn i'r cynigion i weddnewid ysgolion uwchradd yn y Barri.

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Addysg a Hyfforddiant ei Mawrhydi yng Nghymru

O dan amodau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i God cysylltiedig, disgwylir i'r sawl sy'n cynnig, yrru eu dogfennau ymgynghori at Estyn. Fodd bynnag nid yw Estyn yn gorff y mae gofyn iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn rhoi disgwyliad statudol ar Estyn o safbwynt materion yn ymwneud â threfniadaeth ysgolion. Felly fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn ddim ond yn rhoi eu barn ar ragoriaethau cyffredinol y cynigion i aildrefnu ysgolion.

Mae Estyn wedi ystyried agweddau addysgiadol y cynigion ac wedi cynhyrchu'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigydd ynghyd â gwybodaeth atodol arall megis data gan Lywodraeth Cymru a barn y Consortia Rhanbarthol sy'n cyflenwi gwasanaethau gwella ysgolion i'r ysgolion o fewn y cynnig.

Cyflwyniad

Daw'r cynnig ymgynghorol gan Gyngor Bro Morgannwg.

Ymgynghoriad yw ar y cynnig i gynyddu llefydd ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg ym Mro Morgannwg gan ehangu Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg ar ei safle ar hyn o bryd o 1361 o lefydd i 1660 o lefydd.

Crynodeb/Casgliad

Barn Estyn yw y bydd y cynnig yn cadw safon bresennol addysg cyfrwng Cymraeg o leiaf a'i fod yn cynnig cyfle i gynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael mewn addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg yn yr ardal i ateb y galw cynyddol.

Disgrifiad a manteision

Mae Bro Morgannwg yn rhoi nifer o resymau cadarn dros y cynnig, yn sylfaenol y bydd yn:

- ehangu nifer y lleoedd addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg i'r dyfodol yn y tymor canolig.
- sicrhau y bydd yna gydbwysedd cynaliadwy rhwng galw ac ateb y galw am leoedd addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg.
- darparu adnoddau newydd a gwell i ddisgyblion yr ysgol
- darparu cyfleoedd ar gyfer ystod ehangach o gyfleoedd dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg
- cynyddu lefel y mynediad cymunedol i addysg Gymraeg
- cynyddu cyfleoedd cyflogaeth a datblygu i staff

Ar sail nifer arfaethedig y disgyblion, mae'r cynigydd yn gwneud achos cymharol gydlynol.

- yr angen i gynyddu nifer y lleoedd mewn addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg yn y tymor canolig a'r hir dymor.
- a bod y safle presennol ar gyfer Ysgol Gyfun Bro Morgannwg ddim yn abl i ateb galw arfaethedig yn ôl y cyngor am addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg o 2020.

Ymddengys i'r cyngor roi ystyriaeth lawn i lawer o'r anfanteision yn y cynnig, ond nid yw wedi gosod allan sut y bydd yn lleihau'r risgiau sydd ynghlwm ag ehangu ar safle sydd eisoes yn gyfyng.

Rhodddwyd ystyriaeth i nifer o ddewisiadau yn ystod yr ymgynghoriad gwreiddiol yn 2015. Mae'r cyngor yn diystyru'r rhain yn ddigon teg ynghyd a chynnal y sefyllfa bresennol fel ag y mae. Wedi iddo gael ei wrthod gan yr ymgynghoreion oherwydd yr amharu ar ddisgyblion cyfrwng Saesneg a chynnydd yn y pellter teithio i rai disgyblion cynradd, nid yw'r cynigydd yn gallu bwrw ymlaen â'r dewis a ffafriwyd yn ystod yr ymgynghoriad cychwynnol. Yn ychwanegol maentumia yn ddigon rhesymol y byddai cadw'r sefyllfa fel y mae yn ei rwystro rhag ateb y ddyletswydd statudol sydd arno i ateb y galw cynyddol am leoedd addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg.

Ychwanega yn ddigon rhesymol hefyd taw'r cynnig hwn fyddai'n amharu lleiaf ar holl ysgolion uwchradd y Barri.

Mae'r cyngor yn honni'n ddigon credadwy na fydd y cynnig hwn yn cael effaith ar dderbyniadau na threfniadau dalgylchoedd. Felly gall rhywun yn rhesymol ddod i'r casgliad na fydd llawer o amharu ar drefniadau teithio disgyblion.

Tra bod y cynlluniau llawn yn ddibynnol ar gais llwyddiannus am ariannu gan Lywodraeth Cymru, canlyniad na allwn basio sylw arno, mae'r cyngor yn honni'n ddigon rhesymol ei fod mewn sefyllfa i roi blaenoriaeth i'r gwaith fyddai'n cynyddu nifer y lleoedd addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg i gyrraedd y nod mae wedi ei osod iddo'i hun.

Er nad yw'r cynnig yn mynd i'r afael â'r lleoedd sydd yn sbâr ar hyn o bryd, gall rhywun yn rhesymol dybio y caiff yn ei ateb os yw'r galw am leoedd arfaethedig yn cael ei wireddu.

Mae'r cynigydd yn honni yn ddigon rhesymol y bydd hi'n debygol y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol o ganlyniad i'r adnoddau ychwanegol.

Agweddau addysgiadol y cynnig

Wrth gyflwyno'r canlyniadau addysgiadol nid yw'r cyngor wedi darparu ystod lawn o ddangosyddion perfformiad yr ysgol.

Ar gyfer cyfnod allweddol 4, mae'n honni fod ei berfformiad TGAU yn y ddau chwarter uchaf o'i gymharu ag ysgolion cyffelyb. Nid yw'r cyngor wedi ei gwneud yn eglur pa gyfnod amser y cyfeiria hwn ato. Wrth gyfeirio at ganlyniadau mwyaf

diweddar cyfnod allweddol 4, byddai'r honiad hwn yn anghywir oherwydd, yn 2015, mae lleiafrif o'r dangosyddion yn hanner isaf ysgolion tebyg yn seiliedig ar gymhwyster prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn arbennig o wir o safbwynt cyfran y disgyblion yn ennill 5 TGAU (gan gynnwys Cymraeg a Mathemateg) graddau A8-C, sef yr unig ddangosydd y mae gwybodaeth wedi ei ddarparu ar ei gyfer. Nid yw'r wybodaeth a ddarparwyd ar gyfer y dangosydd hwn yn cymharu perfformiad ag ysgolion tebyg yn seiliedig ar gymhwyster prydau ysgol am ddim.

Ni cheir gwybodaeth perfformiad ar gyfer cyfnod allweddol 3.

Oherwydd mai ym mis Medi 2015 y daeth adran gynradd yr ysgol i fodolaeth, does dim hanes data blaenorol ganddo ar ei ffurf bresennol. Fodd bynnag, er mwyn cael darlun cyflawn, ac o ystyried fod yr ysgol yn gweithredu fel ysgol wedi ei ffederaleiddio cyn dod yn rhan o'r ysgol i bob oed, mae data hanesyddol ar ganlyniadau'r adran yn y cyfnod Sylfaen yn ystod y cyfnod hwn ar gael a gellid fod wedi ei gyflwyno yma.

Tra nad yw hepgor y wybodaeth hon yn lleihau cryfder achos y cyngor, mae'r dadansoddiad data ychydig yn gamarweiniol o safbwynt perfformiad yr ysgol. Yn benodol, nid yw'n cefnogi haerid y cyngor mai bwriad y cynnig yw cynnal momentwm gwelliant yr ysgol, o ystyried, yng nghyfnod allweddol 4, bod tri allan o'r wyth dangosydd wedi lleihau yn ystod 2015.

Mewn agweddau eraill, mae cyflwyniad y cyngor o ddsbarthiad yr ysgol yn addas.

Mae cyflwyniad y cynigydd ar effaith y cynnig ar ddarpariaeth yn honni'n rhesymol y bydd gofod corfforol ychwanegol yn debygol o gael ei greu i ateb y galw am addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg a thrwy hynny wella darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal. Nid yw fodd bynnag, yn ystyried unrhyw agweddau eraill ar y ddarpariaeth megis yr effaith ar ofynion staffio i'w alluogi i gyflwyno'r cwricwlwm yn llawn yng nghyfnodau allweddol 3 a 4. Fodd bynnag, eir i'r afael â hyn i raddau wrth ystyried yr effaith ariannol ar gyllideb yr ysgol gyda chynnydd yn nifer y disgyblion.

Mae'n honni'n rhesymol mai ychydig fyddai'r effaith ar arweiniad a llywodraethiant yr ysgol.

Mae'r cyngor yn honni'n rhesymol y byddai angen rheoli'r gwaith adeiladu yn ofalus i leihau cyn lleied â phosib ar ddisgyblion a thrafnidiaeth yn ystod y tymor ysgol. Mae hefyd yn dangos yn glir sut y bydd adeiladau'r ysgol a'r ddarpariaeth yn cael eu gwella a'r costau cyffredinol arfaethedig.

Mae'r cyngor wedi ystyried effaith y cynnig ar ysgolion cymdogol ac yn honni'n rhesymol nad yw' effaith hwn yn debygol o fod yn un sylweddol.

Mae'r cynigydd yn honni'n rhesymol nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar ddisgyblion sy'n agored i niwed sydd yn yr ysgol ar hyn o bryd, gan gynnwys disgyblion ag anghenion addysg arbennig. Os yw'r cyngor yn gwireddu ei gynlluniau, mae'n honni'n rhesymol y bydd cynyddu maint yr ysgol yn ei alluogi i staffio a gwella adnoddau adran anghenion ychwanegol yr ysgol i ateb y galw cynyddol sy'n dod drwy'r ysgolion sy'n

bwydo am ganolfannau adnoddau arbennig cyfrwng Cymraeg. Er, dylid nodi taw amcan a nodwyd yw hwn, yn hytrach nag ymrwymiad cadarn ar hyn o bryd.